**Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.**

**Cymraeg/Saesneg**

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 | Cam cynnydd 4 | Cam cynnydd 5 |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n gallu gwahaniaethu seiniau, chwarae â seiniau a thrin seiniau o fewn fy amgylchedd yn ogystal ag o fewn geiriau.<br><br>Rwy'n dechrau gwahaniaethu ffonemau yn glywedol mewn gwahanol safleoedd.<br><br>Rwy'n gallu adnabod a dilyn gwybodaeth ddarluniadol a/neu gwybodaeth lafar, a chyfarwyddiadau aml-gam am bynciau cyfarwydd ac arferion. | Rwy'n gallu gwrando ar, deall a chyfathrebu ystyr cyffredinol yr hyn rwy'n ei glywed.<br><br>Rwy'n gallu gwrando ar, deall ac adalw'n ddiweddarach yr hyn rwyf wedi'i glywed.<br><br>Rwy'n gallu deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau, gan adnabod y prif bwyntiau.<br><br>Rwy'n gallu deall ac ymateb i ystod o gwestiynau a chyfarwyddiadau aml-gam mewn amrywiaeth o gyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd. | Rwy'n gallu gwrando ar, deall, ac adalw yn ddiweddarach mewn mwy o fanylder, ystyr cyffredinol yr hyn rwyf wedi'i glywed.<br><br>Rwy'n gallu gwrando ar a deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau, gan grynhoi'r prif bwyntiau.<br><br>Rwy'n gallu gwrando ar, adnabod a defnyddio ciwiau i ddeall ystyr cyffredinol a syniadau sydd ymhlyg. | Rwy'n gallu deall a dadansoddi ystyr cyffredinol a syniadau sydd ymhlyg. | Rwy'n gallu deall a gwerthuso'r hyn rwy'n ei glywed a'i ddarllen mewn gwahanol gyd-destunau ar draws amrywiaeth eang o iaith. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rwy'n gallu defnyddio ciwiau amrywiol i ragfynegi'r ystyr cyffredinol mewn amrywiaeth o gyd-destunau llafar cyfarwydd ac anghyfarwydd. | | | |
| Rwy'n gallu gwrando ar eraill gyda sylw cynyddol. | Rwy'n gallu gwrando ar eraill a deall y gallan nhw fod â safbwynt gwahanol i mi. | Rwy'n gallu gwrando gydag empathi ar safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol. | Rwy'n gallu gwrando gydag empathi ar safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol gan ddefnyddio'r safbwyntiau i gyrraedd fy nghasgliadau fy hun. | Rwy'n gallu gwrando gydag empathi, gan barchu safbwyntiau gwahanol bobl, ac rwy'n gallu gwerthuso'r safbwyntiau hyn yn feirniadol er mwyn cyrraedd fy nghasgliadau ystyriol fy hun. |
| Rwy'n gallu mwynhau rhannu llyfrau a deunyddiau darllen a'u trin fel darllenydd.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio unedau sain o amrywiol feintiau er mwyn dysgu darllen.<br><br>Rwy'n gallu segmentu a chyfuno. | Rwy'n gallu defnyddio cyfatebiaethau graffem-ffonem wrth ddarllen.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i ddarllen gyda rhuglder cynyddol.<br><br>Rwy'n gallu darllen gwahanol destunau gan ddefnyddio ystod o strategaethau i bennu ystyr. | Rwy'n gallu darllen testunau gan ddewis strategaethau sy'n rhoi'r mwyaf o gymorth i mi eu deall. Gallai'r strategaethau hyn gynnwys gweithio ar draws fy ieithoedd.<br><br>Rwy'n gallu cymharu gwahanol bethau rwy'n eu darllen. | Rwy'n gallu darllen ystod o destunau gan ddewis strategaethau i'w deall nhw ac i wella fy mynegiant a chyfathrebu.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i grynhoi, syntheseiddio a dadansoddi gwybodaeth er mwyn deall testunau'n fanwl. | Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i adnabod a rhagfynegi ystyr ar draws ystod eang o destunau, a thrwy hyn gyfoethogi fy mynegiant a chyfathrebu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n gallu deall fod perthynas un-i-un rhwng y gair ysgrifenedig a'r gair llafar.<br><br>Rwy'n dechrau datblygu fy ngwybodaeth o gyfatebiaeth graffem-ffonem.<br><br>Rwy'n dechrau adnabod a darllen geiriau aml eu defnydd.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio cyd-destun a lluniau i'm helpu i ddeall yr hyn rwyf yn ei ddarllen.<br><br>Rwy'n dechrau darllen yn ôl yr hyn yr rwyf yn ei ysgrifennu. | Rwy'n gallu adnabod nodweddion gwahanol fathau o destunau a defnyddio iaith briodol i siarad amdanyn nhw.<br><br>Rwy'n gallu darganfod a defnyddio gwybodaeth o wahanol ddeunyddiau rwyf yn eu darllen. | | | |
| | Rwy'n gallu dehongli ystyr o destun a delweddau. | Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad er mwyn deall testunau, a gallu ystyried dibynadwyedd yr hyn yr wyf yn ei ddarllen. | Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad i ddeall testunau mwy cymhleth, a gallu ystyried dibynadwyedd ac effaith yr hyn yr wyf yn ei ddarllen. | Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad i fagu dealltwriaeth fanwl o destunau cymhleth ac rwy'n gallu gwerthuso dibynadwyedd, dilysrwydd ac effaith yr hyn yr wyf yn ei ddarllen. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n gallu deall a defnyddio cysyniadau sylfaenol mewn iaith.<br><br>Rwy'n ymwybodol o sut mae geiriau'n cael eu gwahanu gan fylchau.<br><br>Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol o sut mae prif lythrennau ac atalnodau llawn yn pennu ffiniau brawddegau. | Rwy'n gallu darllen ar goedd gyda mynegiant, gan roi sylw i atalnodi. | Rwy'n gallu gwrando a darllen i fagu dealltwriaeth o'r ffordd y mae gramadeg ac atalnodi'n effeithio ar ystyr. | Rwy'n gallu gwrando a darllen i ddatblygu fy nealltwriaeth o'r ffordd mae gramadeg ac atalnodi'n siapio brawddegau a thestunau cyflawn. | Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o adeiladwaith geiriau, gramadeg gan gynnwys cystrawen, a threfn testunau i gefnogi fy nealltwriaeth o'r hyn rwy'n ei glywed a'i ddarllen. |
| Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn deall yn well.<br><br>Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld.<br><br>Rwy'n gallu siarad am yr hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen neu'i weld, a mynegi barn syml. | Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, gan ofyn cwestiynau a dangos fy nealltwriaeth. | Rwy'n gallu darllen gydag empathi i adnabod safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol. | Rwy'n gallu darllen gydag empathi i adnabod safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol, gan eu defnyddio i ffurfio fy nghasgliadau fy hun. | Rwy'n gallu darllen gydag empathi i barchu a gwerthfawrogi'n feirniadol bersbectif gwahanol bobl, gan ddefnyddio hyn i ffurfio fy nghasgliadau ystyriol fy hun. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n gallu arbrofi gyda geirfa rwyf newydd ei dysgu. | Rwy'n gallu datblygu fy ngeirfa trwy wrando a darllen, a defnyddio'r geiriau newydd hyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau. | Rwy'n gallu gwrando a darllen er mwyn datblygu fy ngeirfa, ynganiad a strwythurau brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain wrth i mi gyfathrebu. | Rwy'n gallu gwrando a darllen er mwyn cadarnhau a datblygu fy ngeirfa a strwythurau brawddegau gan ddefnyddio'n gywir yr hyn rwy'n ei ddysgu wrth i mi gyfathrebu. | Rwy'n gallu gwrando a darllen i ddatblygu ystod eang o eirfa gyffredinol a phenodol, ac rwy'n gallu eu defnyddio'n fanwl gywir mewn gwahanol gyd-destunau. |

**Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg**

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 | Cam cynnydd 4 | Cam cynnydd 5 |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n gallu adnabod a dilyn gwybodaeth a chyfarwyddiadau syml am bynciau cyfarwydd ac arferion. | Rwy'n gallu gwrando ar, deall ac yna adalw'n ddiweddarach yr hyn rwyf wedi'i glywed.<br><br>Rwy'n gallu deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio ciwiau amrywiol i ragfynegi'r ystyr gyffredinol mewn amrywiaeth o gyd-destunau llafar. | Rwy'n gallu deall ystyr gyffredinol yr hyn rwy'n ei glywed, ac rwy'n gallu cyfathrebu hyn yn fy newis iaith.<br><br>Rwy'n gallu gwrando ar a deall gwybodaeth am amrywiaeth o bynciau, ei hadalw a chrynhoi'r prif bwyntiau yn fy newis iaith. | Rwy'n gallu gwrando a defnyddio ciwiau i ddeall ystyr gyffredinol yr hyn rwyf wedi'i glywed gan grynhoi yn fy newis iaith. | Rwy'n gallu deall a gwerthuso'r hyn rwy'n ei glywed a'i ddarllen mewn gwahanol gyd-destunau ar draws amrywiaeth eang o iaith. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rwy'n gallu gwrando, deall ac ymateb i ystod o gwestiynau a chyfarwyddiadau aml-gam mewn amrywiaeth o gyd-destunau cyfarwydd. | Rwy'n gallu defnyddio ciwiau amrywiol i ragfynegi'r ystyr gyffredinol mewn amrywiaeth o gyd-destunau llafar cyfarwydd ac anghyfarwydd. | | |
| Rwy'n gallu gwrando ar eraill gyda sylw cynyddol. | Rwy'n gallu gwrando ar eraill, a deall y gallan nhw fod â safbwynt wahanol i mi. | Rwy'n gallu gwrando a darllen gydag empathi, gan gydnabod safbwyntiau amrywiol pobl eraill. | Rwy'n gallu gwrando a darllen gydag empathi, a myfyrio ar bersbectif pobl eraill er mwyn llywio fy ffordd i o feddwl. | Rwy'n gallu gwrando a darllen gydag empathi, gan barchu safbwyntiau gwahanol bobl ac rwy'n gallu gwerthuso'r safbwyntiau hyn yn feirniadol er mwyn cyrraedd fy nghasgliadau ystyriol fy hun. |
| Rwy'n dechrau adnabod a darllen geiriau aml eu defnydd rwy'n dod ar eu traws.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio cyd-destun a lluniau i'm helpu i ddeall geiriau. | Rwy'n gallu defnyddio cyfatebiaethau graffem-ffonem wrth ddarllen.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i ddarllen gyda rhuglder cynyddol.<br><br>Rwy'n gallu darllen gwahanol destunau gan ddefnyddio ystod o strategaethau i bennu ystyr. | Rwy'n gallu darllen testunau gan ddewis strategaethau sy'n rhoi'r mwyaf o gymorth i mi eu deall.<br><br>Rwy'n gallu cymharu gwahanol bethau rwy'n eu ddarllen. | Rwy'n gallu darllen ystod o destunau gan ddewis strategaethau i'w deall nhw ac i wella fy mynegiant a chyfathrebu.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i adnabod a rhagfynegi'r ystyr cyffredinol ar draws ystod eang o destunau. | Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i grynhoi, syntheseiddio a dadansoddi gwybodaeth i fagu dealltwriaeth ehangach o destunau a chyfoethogi fy mynegiant a chyfathrebu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rwy'n gallu darganfod a defnyddio gwybodaeth o wahanol ddeunyddiau rwyf yn eu darllen. | | | |
| | Rwy'n gallu dehongli ystyr o destun a delweddau. | Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad er mwyn deall testun. | Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad er mwyn deall testunau mwy cymhleth, a gallu ystyried dibynadwyedd yr hyn yr wyf yn ei ddarllen. | Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad i fagu dealltwriaeth o destunau cymhleth ac rwy'n gallu gwerthuso dibynadwyedd ac effaith yr hyn yr wyf yn ei ddarllen. |
| | Rwy'n gallu ddarllen ar goedd gyda mynegiant, gan roi sylw i atalnodi. | Rwy'n gallu gwrando a darllen gan ddangos ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae gramadeg ac atalnodi'n effeithio ar ystyr. | Rwy'n gallu gwrando a darllen i ddatblygu fy nealltwriaeth o'r ffordd y mae gramadeg ac atalnodi'n siapio brawddegau a thestunau cyflawn. | Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o adeiladwaith geiriau, gramadeg gan gynnwys cystrawen, a threfn testunau i gefnogi fy nealltwriaeth o'r hyn rwy'n ei glywed a'i ddarllen. |
| Rwy'n gallu arbrofi gyda geirfa rwyf newydd ei dysgu. | Rwy'n gallu datblygu fy ngeirfa ac ynganiad trwy wrando a darllen, ac rwy'n gallu defnyddio'r geiriau newydd hyn. | Rwy'n gallu datblygu fy ngeirfa ac ynganiad trwy wrando a darllen, a defnyddio'r geiriau newydd hyn mewn amrywiaeth o gyd-destunau. | Rwy'n gallu gwrando a darllen er mwyn datblygu fy ngeirfa, ynganiad a strwythurau brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain wrth i mi gyfathrebu ar draws ystod o gyd-destunau. | Rwy'n gallu gwrando a darllen er mwyn cadarnhau a datblygu fy ngeirfa a strwythurau brawddegau, gan ddefnyddio'r rhain yn gywir wrth i mi gyfathrebu mewn ystod eang o gyd-destunau. |

**Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.**

**Cymraeg/Saesneg**

| **Cam cynnydd 1** | **Cam cynnydd 2** | **Cam cynnydd 3** | **Cam cynnydd 4** | **Cam cynnydd 5** |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n gallu cynhyrchu nifer o seiniau llafar yn gywir. | Rwy'n gallu siarad yn glir, gan amrywio mynegiant ac ystumiau er mwyn cyfathrebu fy syniadau.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio brawddegau syml ac aml-gymalog gan wneud dewisiadau er mwyn cyrraedd cynulleidfa benodol a chyflawni'r pwrpas a fwriadwyd. | Rwy'n gallu adnabod yr iaith briodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion gan amrywio fy mynegiant, geirfa a naws i ennyn diddordeb y gynulleidfa. | Rwy'n gallu dewis ac addasu'r iaith briodol ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd a dibenion, gan gyfleu ystyr yn effeithiol i'r gynulleidfa. | Rwy'n gallu argyhoeddi wrth gyfleu ystyr mewn ystod o gyd-destunau gan ennyn diddordeb llawn y gynulleidfa. |
| Rwy'n gallu cyfathrebu ystyr gan ddefnyddio iaith lafar estynedig a/neu ystum.<br><br>Rwy'n dechrau defnyddio iaith briodol i siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol a'r dyfodol. | Rwy'n gallu cyfathrebu gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol amrywiol ac yn gynyddol fanwl gywir.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio brawddegau syml ac aml-gymalog.<br><br>Rwy'n gallu amrywio'r math o frawddegau rwy'n eu defnyddio yn fy iaith lafar. | Rwy'n gallu addasu a thrin iaith a gwneud dewisiadau priodol ynghylch geirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun yn rhugl ac eglur. | Rwy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus am eirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun yn rhugl, yn eglur ac yn gywir. | Rwy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch geirfa a gramadeg i cyfoethogi fy sgiliau cyfathrebu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rwy'n gallu edrych ar fy ngwaith ac rwy'n dechrau defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau cyfarwydd i wella fy ngwaith llafar ac ysgrifennu.<br><br>Rwy'n gallu egluro ble a pham rwyf wedi gwneud unrhyw newidiadau neu gywiriadau. | Rwy'n gallu myfyrio ar ansawdd fy mynegiant a defnyddio ystod o strategaethau i sicrhau mwy o eglurder yn fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig. | Rwy'n gallu myfyrio ar fy nefnydd o strategaethau i wella ansawdd, cywirdeb ac effaith fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig. | Rwy'n gallu myfyrio'n feirniadol ar fy nefnydd o iaith ac yn gallu ystyried yn wrthrychol effaith fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig. |
| Rwy'n dechrau cymryd fy nhro mewn sgyrsiau, gan ddilyn y pwnc dan sylw.<br><br>Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn deall yn well. | Rwy'n gallu ymgymryd ag ystod o rolau a rheoli fy nghyfraniad yn briodol.<br><br>Rwy'n gallu newid y modd rwy'n cyfathrebu, yn ôl lle'r wyf i a chyda phwy.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio iaith lafar at wahanol ddibenion.<br><br>Rwy'n gallu gofyn ac ateb cwestiynau a chyfnewid syniadau a gwybodaeth. | Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, gan ymofyn eglurhad, strwythuro dadleuon, crynhoi ac esbonio'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu'i weld. | Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, gan grynhoi a gwerthuso'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu'i weld, strwythuro dadleuon a herio gyda hyder a sensitifrwydd yr hyn y mae eraill yn ei ddweud. | Rwy'n gallu gwerthuso ac ymateb yn feirniadol i'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu ei weld. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rwy’n gallu cyfathrebu gan wneud marciau, darlunio symbolau neu ysgrifennu llythrennau a geiriau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.<br><br>Rwy’n dechrau ffurfio llythrennau’n gywir gan afael yn briodol yn yr offer ysgrifennu. | Rwy’n gallu ysgrifennu’n ddarllenadwy. | Rwy’n gallu ysgrifennu’n ddarllenadwy a rhugl. | | |
| Rwy’n dechrau ysgrifennu gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd.<br><br>Rwy’n gallu ysgrifennu geiriau ac ymadroddion gan ddefnyddio gwybodaeth am lythrennau a’r seiniau maen nhw’n eu cynrychioli. | Rwy’n gallu sillafu geiriau afreolaidd cyffredin yn gywir.<br><br>Rwy’n gallu defnyddio’r hyn rwy’n ei wybod am sain a phatrwm llythrennau yn gywir yn fy sillafu.<br><br>Rwy’n gallu rhoi ymgais ar sillafu geiriau anoddach mewn ffordd resymol gan ddefnyddio ystod o strategaethau. | | | |
| Rwy’n ymwybodol o sut mae geiriau’n cael eu gwahanu gan fylchau. | Rwy’n gallu defnyddio atalnodi cyfarwydd. | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol o sut mae prif lythrennau ac atalnodau llawn yn pennu ffiniau brawddegau. | | | | |
| Rwy'n gallu rhannu syniadau a theimladau a mynegi'r hyn yr wyf yn ei hoffi ac nad wyf yn ei hoffi.<br><br>Rwy'n gallu disgrifio gwrthrychau a digwyddiadau, gan adeiladu ac ymestyn fy ngeirfa. | Rwy'n gallu esbonio gwybodaeth a rhannu syniadau, barn a theimladau gan ddefnyddio geirfa berthnasol. | Rwy'n gallu rhyngweithio gydag eraill, siarad ac ysgrifennu am fy meddyliau, teimladau a barn, gan ddangos empathi a pharch. | Rwy'n gallu rhannu fy meddyliau, teimladau a barn gydag eraill, gan ddefnyddio ystod o dechnegau at wahanol ddibenion gan ddangos empathi a pharch. | Rwy'n gallu cyfathrebu fy meddyliau, teimladau a barn mewn cyd-destunau heriol a dadleuol gan ddangos empathi a pharch. |
| Rwy'n dechrau deall y gellir ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.<br><br>Rwy'n gallu cyfrannu at ysgrifennu ar y cyd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion. | Rwy'n gallu siarad er mwyn cynllunio ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.<br><br>Rwy'n gallu trefnu fy ngwaith ysgrifennu i ddilyn yn rhesymegol.<br><br>Rwy'n gallu ysgrifennu gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol ddychmygus, amrywiol a manwl gywir. | Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig gyfarwydd a chywair priodol wrth gyfathrebu. | Rwy'n gallu dewis iaith idiomatig a chywair priodol wrth gyfathrebu er mwyn cyfoethogi fy mynegiant. | Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig soffistigedig a chywair priodol mewn ystod o gyd-destunau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n dechrau cyfathrebu gan ddefnyddio testun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa  rwyf newydd ei dysgu. | | | | |

**Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg**

| **Cam cynnydd 1** | **Cam cynnydd 2** | **Cam cynnydd 3** | **Cam cynnydd 4** | **Cam cynnydd 5** |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n gallu cynhyrchu nifer o seiniau llafar yn gywir.<br><br>Rwy'n gallu dewis siarad gyda fy nghyfoedion yn Gymraeg. | Rwy'n gallu siarad gyda mynegiant ac ystumiau er mwyn cyfathrebu fy syniadau. | Rwy'n gallu defnyddio ac addasu iaith gyfarwydd, gan amrywio geirfa a naws yn ôl y gynulleidfa. | Rwy'n gallu dewis ac addasu'r iaith briodol ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd a dibenion, gan gyfleu ystyr yn effeithiol i'r gynulleidfa. | Rwy'n gallu argyhoeddi wrth gyfleu ystyr mewn ystod o gyd-destunau gan ennyn diddordeb llawn y gynulleidfa. |
| Rwy'n gallu cyfathrebu ystyr trwy iaith lafar ac ystum. | Rwy'n gallu cyfathrebu gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol amrywiol.<br><br>Rwy'n dechrau defnyddio iaith briodol i siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol a'r dyfodol. | Rwy'n gallu addasu a thrin iaith a gwneud dewisiadau priodol ynghylch geirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun. | Rwy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus am eirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun. | Rwy'n gallu gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch geirfa a gramadeg i ddyfnhau fy sgiliau cyfathrebu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rwy'n gallu edrych dros fy ngwaith ac rwy'n dechrau defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau cyfarwydd i wella fy ngwaith llafar ac ysgrifennu. | Rwy'n gallu myfyrio ar safon fy mynegiant a defnyddio ystod o strategaethau i sicrhau mwy o eglurder yn fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig.<br><br>Rwy'n gallu egluro yn fy newis iaith ble a pham rwyf wedi gwneud unrhyw newidiadau neu gywiriadau. | Rwy'n gallu myfyrio ar fy nefnydd o strategaethau i wella ansawdd, cywirdeb ac effaith fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig. | Rwy'n gallu myfyrio'n feirniadol ar fy nefnydd o iaith ac yn gallu ystyried yn wrthrychol effaith fy nghyfathrebu gweledol, llafar ac ysgrifenedig. |
| Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau. | Rwy'n gallu ymgymryd ag ystod o rolau a rheoli fy nghyfraniad yn briodol.<br><br>Rwy'n gallu newid y modd rwy'n cyfathrebu, yn ôl lle'r wyf i a chyda phwy.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio iaith lafar at wahanol ddibenion.<br><br>Rwy'n gallu gofyn ac ateb cwestiynau a chyfnewid syniadau a gwybodaeth. | Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill. | Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, gan ymofyn eglurhad, strwythuro dadleuon, crynhoi ac esbonio'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu'i weld. | Rwy'n gallu ymateb i safbwyntiau pobl eraill, gan grynhoi a gwerthuso'r hyn rwyf wedi'i glywed, ei ddarllen neu'i weld, strwythuro dadleuon a herio gyda hyder a sensitifrwydd yr hyn y mae eraill yn ei ddweud. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rwy'n gallu sillafu geiriau aml eu defnydd yn gywir.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am sain a phatrwm llythrennau i gefnogi fy sillafu. | Rwy'n gallu rhoi ymgais ar sillafu geiriau anoddach mewn ffordd resymol gan ddefnyddio ystod o strategaethau. | | |
| Rwy'n gallu cyfrannu at ysgrifennu ar y cyd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion.<br><br>Rwy'n dechrau cyfathrebu gan ddefnyddio testun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo. | Rwy'n gallu siarad yn fy newis iaith er mwyn cynllunio ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. | Rwy'n gallu cynllunio ac ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.<br><br>Rwy'n gallu trefnu fy ngwaith ysgrifennu i ddilyn yn rhesymegol. | | |
| Rwy'n dechrau mynegi fy nheimladau. | Rwy'n gallu rhannu syniadau a mynegi barn a theimladau gan ddefnyddio geirfa berthnasol.<br><br>Rwy'n gallu disgrifio digwyddiadau, gan adeiladu ac ymestyn fy ngeirfa. | Rwy'n gallu rhyngweithio gydag eraill, siarad ac ysgrifennu am fy meddyliau, teimladau a barn, gan ddangos empathi a pharch. | Rwy'n gallu rhannu fy meddyliau, teimladau a barn gydag eraill, gan ddefnyddio ystod o dechnegau i wahanol ddibenion gan ddangos empathi a pharch. | Rwy'n gallu cyfathrebu fy meddyliau, teimladau a barn mewn cyd-destunau heriol a dadleuol gan ddangos empathi a pharch. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu. | Rwy'n gallu defnyddio geirfa sy'n gynyddol ddychmygus ac amrywiol. | Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig gyfarwydd a chywair priodol wrth gyfathrebu. | Rwy'n gallu dewis iaith idiomatig a chywair priodol wrth gyfathrebu er mwyn cyfoethogi fy mynegiant. | Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig a chywair priodol i gyfoethogi fy mynegiant mewn ystod o gyd-destunau. |

## Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

**Cymraeg/Saesneg**

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 | Cam cynnydd 4 | Cam cynnydd 5 |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n gallu ymuno â chaneuon, rhigymau, straeon a cherddi cyfarwydd.<br><br>Rwy'n gallu ailadrodd straeon.<br><br>Rwy'n gallu ymateb yn greadigol i'r ystod o lenyddiaeth rwy'n ei chlywed, ei ddarllen neu'n ei weld. | Rwy'n gallu gwrando ar farddoniaeth, drama a rhyddiaith, a'u cofio.<br><br>Rwy'n gallu ailadrodd straeon mewn ffordd greadigol.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg i ymateb i lenyddiaeth a'i haddasu i greu fy ngwaith fy hun. | Rwy'n gallu cynnig sylwadau ar lenyddiaeth a gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am arddulliau ysgrifennu a nodweddion gwahanol genres llenyddol er mwyn creu fy ngwaith fy hun. | Rwy'n gallu archwilio amrywiaeth eang o genres, gan arbrofi gyda dewisiadau iaith a thechnegau ar gyfer fy nibenion creadigol fy hun. | Rwy'n gallu mynd i'r afael ag amrywiaeth eang o genres llenyddol er mwyn archwilio a saernïo fy ngwaith fy hun. |
| Rwy'n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu. | Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg i greu fy llenyddiaeth fy hun. | Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg ac arbrofi gydag iaith i greu fy llenyddiaeth fy hun. | Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg ac arbrofi gyda gwahanol ffurfiau a thechnegau creadigol er mwyn creu fy llenyddiaeth fy hun. | Rwy'n gallu arbrofi gyda a chreu fy llenyddiaeth fy hun. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, ac rwy'n gallu mynegi barn syml ar hyn.<br><br>Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau i wella fy nealltwriaeth. | Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, gan ofyn cwestiynau a dangos fy nealltwriaeth.<br><br>Rwy'n gallu adnabod nodweddion gwahanol fathau o lenyddiaeth a defnyddio iaith briodol i siarad amdanyn nhw. | Rwy'n gallu ystyried plot, cymeriad, thema a chyd-destun y llenyddiaeth rwy'n ei phrofi, gan gefnogi fy syniadau a'm barn gyda thystiolaeth o'r llenyddiaeth.<br><br>Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld. | Rwy'n gallu archwilio, dadansoddi a chymharu syniadau allweddol gan ddefnyddio terminoleg briodol, a chefnogi fy marn gyda manylion priodol o'r testun. | Rwy'n gallu gwerthuso cysyniadau allweddol yn feirniadol ynghyd ag effaith dewisiadau iaith a thechnegau ar y darllenwyr/gwylwyr gan ddefnyddio detholiad cadarn o fanylion perthnasol o'r testun. |
| | Rwy'n dechrau dangos empathi gyda chymeriadau mewn llenyddiaeth. | Rwy'n gallu dangos empathi wrth ymateb i lenyddiaeth ac rwy'n deall y gall fod gan bobl eraill farn wahanol i mi. | Rwy'n gallu gwerthfawrogi llenyddiaeth, gan ddangos empathi ynghyd â dealltwriaeth y gall llenyddiaeth gael ei dehongli mewn gwahanol ffyrdd. | Rwy'n gallu gwerthfawrogi llenyddiaeth, gan ddangos empathi wrth werthuso gwahanol ddehongliadau ohoni, gan gynnwys fy nehongliad fy hun. |

**Cymraeg mewn lleoliadau/ysgolion/ffrydiau cyfrwng Saesneg**

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 | Cam cynnydd 4 | Cam cynnydd 5 |
|---|---|---|---|---|
| Rwyf wedi profi llenyddiaeth. | Rwyf wedi profi ystod o lenyddiaeth.<br><br>Rwy'n gallu gwrando ar farddoniaeth, drama a rhyddiaith, a'u cofio. | Rwy'n gallu gwrando ar farddoniaeth, drama a rhyddiaith, gan eu cofio a'u haddasu mewn ffordd greadigol. | Rwy'n gallu defnyddio'r hyn rwy'n ei wybod am arddulliau ysgrifennu a nodweddion gwahanol lenyddiaeth er mwyn creu fy ngwaith fy hun. | Rwy'n gallu archwilio amrywiaeth eang o lenyddiaeth, gan arbrofi gyda dewisiadau iaith a thechnegau ar gyfer fy mhwrpas creadigol fy hun. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n gallu ymuno â chaneuon, rhigymau, straeon a cherddi cyfarwydd.<br><br>Rwy'n dechrau ymateb i lenyddiaeth rwy'n ei chlywed a'i gweld. | Rwy'n gallu ailadrodd straeon.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg i ymateb i lenyddiaeth a'i haddasu. | Rwy'n gallu ailadrodd straeon mewn ffordd greadigol.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg i ymateb i lenyddiaeth.<br><br>Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, gan fynegi barn a dangos fy nealltwriaeth yn fy newis iaith. | | |
| Rwy'n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu. | Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg er mwyn creu fy llenyddiaeth fy hun. | Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg ac arbrofi gydag iaith i greu fy llenyddiaeth fy hun. | Rwy'n gallu defnyddio fy nychymyg ac arbrofi gyda gwahanol ffurfiau a thechnegau creadigol er mwyn creu fy llenyddiaeth fy hun. | Rwy'n gallu arbrofi gyda a chreu fy llenyddiaeth fy hun. |
| Rwy'n dechrau ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed a'i weld. | Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld gan fynegi barn syml yn fy newis iaith.<br><br>Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn i mi ddeall yn well. | Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, gan ofyn cwestiynau er mwyn dangos fy nealltwriaeth.<br><br>Rwy'n gallu adnabod nodweddion gwahanol fathau o lenyddiaeth a defnyddio iaith briodol i siarad amdanyn nhw. | Rwy'n gallu ystyried plot, cymeriad, thema a chyd-destun y llenyddiaeth rwy'n ei phrofi, gan gefnogi fy syniadau a'm barn gyda thystiolaeth o'r testun.<br><br>Rwy'n gallu gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld. | Rwy'n gallu archwilio, dadansoddi a chymharu syniadau allweddol gan ddefnyddio terminoleg briodol, a chefnogi fy marn gyda manylion priodol o'r testun. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Rwy’n dechrau dangos empathi gyda chymeriadau mewn llenyddiaeth. | Rwy’n gallu dangos empathi wrth ymateb i lenyddiaeth a chydnabod y gall fod gan bobl eraill farn wahanol i mi. | Rwy’n gallu gwerthfawrogi llenyddiaeth gan ddangos empathi ynghyd â dealltwriaeth y gall llenyddiaeth gael ei dehongli mewn gwahanol ffyrdd. |